# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 25 Hydref 2012** |
| Amser: | **09:15 - 12:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_25_10_2012&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**<br>**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**<br>**Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru**<br>**Jo Salway, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ; Jo Salway, Pennaeth Cyllidebu Strategol; Andrew Jeffreys, Pennaeth Buddsoddi Cyfalaf Strategol; a Jeff Andrews, Ymgynghorydd Polisi Arbenigol.

2.2 Craffodd yr Aelodau ar waith y Gweinidog.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- Ffigurau'n amlygu'r nifer isel o bobl sy'n hawlio Budd-dal Treth Cyngor.
- Rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Gwasanaeth Effeithiol a'r mesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau effeithiol yn cael eu darparu.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013/14.

3.2 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 4 i 8 ar yr agenda hon a'r cyfarfod cyfan ddydd Llun 5 Tachwedd.

## 5. Ystyried yr adroddiad drafft ar amcangyfrif drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft ar amcangyfrif drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn fuan.

## 6. Ystyried y dystiolaeth ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafodd ar gyllideb drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013/14.

## 7. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 - y prif themâu a materion sy'n dod i'r amlwg

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y prif themâu a'r materion sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth a gafodd ar gyllideb drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013/14.

## 8. Ystyried y rhaglen waith ddrafft - tymor yr hydref 2012

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei raglen waith ar gyfer gweddill tymor yr hydref 2012.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.